

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48  
(CYFFORDD EARLSWOOD I GYLCHFAN  
LLANSAWEL, CASTELL-NEDD PORT  
TALBOT) (GWAHARDDIADAU A  
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO)  
2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A48 rhwng Cyffordd Earlswood a Chylchfan Llansawel, Castell-nedd Port Talbot neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A48 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

ii) gwahardd reidio beiciau pedal ar y darnau o gefnffordd yr A48 a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

iii) gwahardd cerddwyr rhag mynd ar hyd y darnau o gefnffordd yr A48 a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

iv) gosod terfyn cyflymder 30 milltir yr awr ar y darnau o gefnffordd yr A48 a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder yn weithredol ar ba bynnag gerbyttffordd sy'n dal i fod yn agored i draffig pan fo gwaith ffyrdd yn cael ei gynnal ar y gerbyttffordd arall.

Disgwylir i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, ddod i rym ar 21 Hydref 2024. Bydd y gwaharddiadau yn weithredol yn ysbeidiol dros nos o 20:00 o'r gloch ar 21 Hydref 2024 hyd at 06:00 o'r gloch ar 2 Rhagfyr 2024. Bydd y terfyn cyflymder yn weithredol 24 o oriau'r dydd tan 2 Rhagfyr 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro fod yn weithredol. Er hynny, bydd y Gorchymyn yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

**THE A48 TRUNK ROAD (EARLSWOOD  
JUNCTION TO BRITON FERRY  
ROUNDAABOUT, NEATH PORT TALBOT)  
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND  
RESTRICTIONS) ORDER  
2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A48 trunk road between Earlswood Junction and Briton Ferry Roundabout, Neath Port Talbot.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A48 trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are described in Schedule 1 to this Notice.

ii) prohibit the riding of pedal cycles on the lengths of the A48 trunk road as specified in Schedules 1 and 2 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are described in Schedule 2 to this Notice.

iii) prohibit pedestrians from proceeding on the lengths of the A48 trunk road as specified in Schedules 1 and 2 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are described in Schedule 2 to this Notice.

iv) impose a 30 miles per hour speed limit on the lengths of the A48 trunk road specified in Schedule 3 to this Notice. The speed limit will operate on whichever carriageway remains open to traffic when roadworks are taking place on the other carriageway.

It is expected the prohibitions and restrictions which will be signed accordingly, will come into force on 21 October 2024. The prohibitions will operate intermittently overnight from 20:00 hours on 21 October 2024 until 06:00 hours on 2 December 2024. The speed limit will operate 24 hours daily until 2 December 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the temporary prohibitions and restrictions are only expected to operate during the period specified above the Order will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

#### **ATODLEN 1**

##### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

i. Y darn o gerbyttfoddd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o Gyffordd 42 (Earlswood) i gyfeiriad y dwyrain hyd at ei chyffordd â Chylchfan Llansawel.

Bydd traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yn cael ei ddargyfeirio i Gyffordd 41 (Pentyla) ac yn ailymuno â'r M4 tua'r gorllewin o Gyffordd 41 (Pentyla) i ymuno â'r A48 yng Nghylchfan Sunnycroft.

Y llwybr arall nad yw'n llwybr traffordd ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain fydd yr A483 (Fabian Way) tua'r de i Gylchfan Amazon, y B4290 tua'r gogledd i Gyffordd 43 (Cyfnawidfa Llandarcy), tua'r gogledd ac yna tua'r dwyrain ar yr A465 i Gyfnawidfa Castell-nedd, yr A474 tua'r dwyrain i Stockhams Corner a'r A474 tua'r de i Gylchfan Llansawel.

ii. Y darn o gerbyttfoddd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llansawel hyd at Gyffordd yr A48 a'r A483 yn Earlswood.

Bydd traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ar y draffordd yn cael ei ddargyfeirio ar hyd yr A474 tua'r gogledd i Gyfnawidfa Castell-nedd drwy fynd ar hyd Stockhams Corner a'r A465 tua'r de i Gyffordd 43 yr M4 (Llandarcy).

Y llwybr arall nad yw'n llwybr traffordd ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd dilyn y llwybr dargyfeiriol uchod ac yna parhau ar y B4290 tua'r de drwy Jersey Marine i ymuno â'r A483 yng Nghylchfan Amazon.

#### **ATODLEN 2**

##### **Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill**

Y darn o lwybr cyd-ddefnyddio cefnffordd yr A48 ar

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

#### **SCHEDULE 1**

##### **Temporary Prohibition of Vehicles and Alternative Routes**

i. The length of the eastbound carriageway of the A48 trunk road that extends from Junction 42 (Earlswood) in an easterly direction to its junction with Briton Ferry Roundabout.

Eastbound traffic will be diverted to Junction 41 (Pentyla) and re-join the M4 westbound from Junction 41 (Pentyla) to join the A48 at Sunnycroft Roundabout.

The alternative non-motorway route for eastbound traffic will be the A483 (Fabian Way) south to Amazon Roundabout, the B4290 north to Junction 43 (Llandarcy Interchange), north then east A465 to Neath Interchange, the A474 east to Stockhams Corner and the A474 south to Briton Ferry Roundabout.

ii. The length of the westbound carriageway of the A48 trunk road that extends from its junction with Briton Ferry Roundabout to the A48 and A483 Junction at Earlswood.

Westbound motorway traffic will be diverted on to the A474 north to Neath Interchange via Stockhams Corner and the A465 south to the M4 Junction 43 (Llandarcy).

The alternative non-motorway route for westbound traffic will be to follow the diversion route above and then continue on the B4290 south through Jersey Marine to join the A483 at Amazon Roundabout.

#### **SCHEDULE 2**

##### **Temporary Prohibition of Cyclists and Pedestrians & Alternative Routes**

The length of the A48 trunk road shared use path on both the northern and southern sides of the A48 River Neath and Briton Ferry Dock Viaduct between Earlswood Junction and Briton Ferry Roundabout.

Cyclists and pedestrians wishing to travel east or west

ochrau gogleddol a deheuol Traphont Afon Nedd a Doc Llansawel yr A48 rhwng Cyffordd Earlswood a Chylchfan Llansawel.

Bydd beicwyr a cherddwyr sy'n dymuno teithio tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin ar draws yr A48 Afon Nedd a Thraphont Doc Llansawel yn cael eu cyfeirio i ba bynnag lwybr cyd-ddefnyddio a fydd yn dal i fod yn agored tra bod gwaith yn mynd rhagddo.

Bydd beicwyr a cherddwyr sy'n dymuno ymuno â'r llwybr cyd-ddefnyddio deheuol yn Warren Hill yn cael eu dargyfeirio tua'r dwyrain ar hyd Stryd yr Eglwys, ar hyd Wharf Road i Brunel Way i ailymuno â llwybr cyd-ddefnyddio gogleddol yr A48 yng Nghylchfan Llansawel.

Bydd beicwyr a cherddwyr sy'n dymuno ymadael â'r llwybr cyd-ddefnyddio yn Warren Hill yn cael eu dargyfeirio i Gylchfan Llansawel, yna tua'r gorllewin ar hyd Brunel Way i ymuno â Wharf Road, yna tua'r gorllewin ar hyd Stryd yr Eglwys i Warren Hill.

### **ATODLEN 3**

#### **Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro**

Y darn o gerbytyffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o Gyffordd 42 (Earlswood) i'w chyffordd â Chylchfan Llansawel (gan gynnwys y system gylchu).

across the A48 River Neath and Briton Ferry Dock Viaduct will be directed to whichever shared use path that will remain open whilst works are in progress.

Cyclists and pedestrians wishing to join the southern shared use path at Warren Hill will be diverted east along Church Street, along Wharf Road to Brunel Way to re-join the A48 northern shared use path at Briton Ferry Roundabout.

Cyclists and pedestrians wishing to exit the shared use path at Warren Hill will be diverted to Briton Ferry Roundabout, then west along Brunel way to join Wharf Road, then west along Church Street to Warren Hill.

### **SCHEDULE 3**

#### **Temporary 30 mph Speed Limit**

The length of the eastbound and westbound carriageways of the A48 trunk road that extend from Junction 42 (Earlswood) to its junction with Briton Ferry Roundabout (including the gyratory).